TGAU

3010N10-1

**DYDD GWENER, 13 IONAWR 2023 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN SYLFAENOL

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

(Trowch y dudalen)

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**

## Yn y cerddi mae'r beirdd yn sôn am ryfeddodau neu brofiadau sy'n gwneud bywyd yn lliwgar.

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL.**

**Dylech wneud hyn drwy:**

- **ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:**
  - **Beth yw'r rhyfeddodau yn y ddwy gerdd?**
  - **Sut mae pethau'n newid rhwng dechrau a diwedd y cerddi?**
  - **Beth ydy neges y ddau fardd?**

- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD arddull / mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol**

- **nodi pa UN o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.**

**Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.** **[40 marc]**

(Trowch y dudalen)

## Y SBECTOL HUD

Pan fydd yr haul yn cwato'r sêr i gyd,
a'r nos ar goll tu ôl i ddrws y dydd,
pan fydd y lleuad wen ym mhen draw'r byd,
a'r machlud fel y wawr ar orwel cudd;
neu pan fydd niwl yn gwisgo'r bryniau draw,
a phlu yr eira'n oeri brigau'r llwyn,
pan fydd y blodau trist yn crio'r glaw –
rho bâr o sbecs dychymyg am dy drwyn.

Ti'n gweld, mae gweld yn anodd ambell waith
a ninnau'n ddall i ryfeddodau'r byd,
am hyn, fy ffrind, cyn dechrau ar dy daith,
ym mhoced ôl dy jîns rho'r sbectol hud.
A gwisga hi, a mentra godi'r llen
i weld holl liwiau'r enfys sy'n dy ben.

Mererid Hopwood

(Trowch y dudalen)

**GEIRFA**

* **taniad awr – amser cynnau tân**
* **yr hwyr – nos**
* **(g)wreichion – darnau bychan o dân**
* **chwyrlïo – hedfan**
* **Nain – Mam-gu**
* **Guto – Guto Ffowc**
* **haid – criw, nifer**
* **dwli – lol, hwyl**

**(Trowch y dudalen)**

## TÂN GWYLLT

Mae Tachwedd llawn rhyfeddod
a'r *taniad awr eto'n dod,
uwch *yr hwyr daw fflach o wres,
cannoedd o *wreichion cynnes
yn *chwyrlïo heno'n lân
i'r gorwel aur ac arian.

Holl sŵn y lliw sy'n y lle
a'r haul ar goll yn rhywle,
a Mam a *Nain yn mwynhau'n
y cawodydd cleciadau,
cawodydd o rocedi
fel glaw dur drwy'n hawyr ni.

Oren ac aur, yna gwyn,
ychydig o goch wedyn,
a draw, un *Guto druan
ddaw i ben ar domen dân,
*haid o blant yn codi bloedd,
a melyn fesul miloedd.

A bore'n gwawrio'n barod
fe ddaeth heno i beidio bod,
mae'r fflamau a'r lliwiau'n llwch,
a *dwli yn dawelwch,
lliwiau llwyd sydd hyd y lle
a'r haul yn ôl o rywle.

Tudur Dylan Jones

DIWEDD Y PAPUR